## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y MESUR TLODI PLANT

### Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. “Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai darpariaethau’r Mesur Tlodi Plant, i’r graddau y mae’r darpariaethau hynny yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU.”

### Y Cefndir

2. Cyflwynwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod gan Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, o dan Reol Sefydlog 26.4 Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Mae’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn wedi’i osod o dan Reol Sefydlog 26.2. Mae Rheol Sefydlog 26 yn rhagnodi bod yn rhaid i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno, a bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Mesur gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Cyflwynwyd y Mesur Tlodi Plant (y Mesur) ar 11 Mehefin 2009. Gellir defnyddio’r ddolen ganlynol i ddod o hyd i’r Mesur:

http://services.parliament.uk/bills/2008-09/childpoverty.html

### Crynodeb o’r Mesur Seneddol a’i Amcanion Polisi

4. Mae’r Mesur wedi’i noddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a Thrysorlys ei Mawrhydi a’r Gweinidog sy’n gyfrifol am ei arwain yw Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys. Prif ddiben y Mesur yw pennu targedau i ddileu tlodi plant erbyn 2020 a’i gwneud hi’n ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i’w cyflawni; ei gwneud hi’n ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynd ati i lunio strategaeth tlodi plant ar gyfer y DU, yn ei hadolygu ac yn cyflwyno adroddiad yn ei chylch; a bod comisiwn tlodi plant yn cael ei greu i gynghori’r Ysgrifennydd Gwladol ac i gymryd rhan yn y broses o arfer y pŵer i ddiwygio’r targedau. Mae’r targedau ar gyfer dileu tlodi plant yn tynnu sylw at nifer o fesurau yn ymwneud ag incwm cymharol isel, amddifadedd sylweddol, incwm isel absoliwt a thlodi parhaus a chânt oll eu defnyddio wrth benderfynu a ydyw tlodi plant yn gostwng tuag at y targed.

5. Bydd y strategaeth tlodi plant ar gyfer y DU yn nodi’r camau y cynigia’r Ysgrifennydd Gwladol eu cymryd yn y lle cyntaf i gyflawni’r targedau i ddileu

tlodi plant ac, yn ail, i sicrhau nad yw plant yn y Deyrnas Unedig, i’r graddau y bo’n bosibl, yn dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Darpariaethau yn y Mesur Seneddol y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

7. Mae’r Mesur Tlodi Plant yn nodi nifer o ddarpariaethau gyda’r diben o ostwng nifer y plant yn y Deyrnas Unedig sy’n cael eu magu mewn cartrefi ar incwm isel.

8. Mae’r Mesur yn nodi nifer o wahanol fesurau mewn perthynas â thlodi plant ac yn pennu targedau i leihau canran y plant yn y boblogaeth gyfan a ddaw o fewn y grŵp sy’n byw mewn tlodi o fewn nifer penodol o flynyddoedd. Mae’r ddyletswydd i gyflawni’r targedau wedi’i rhoi ar yr Ysgrifennydd Gwladol.

9. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd ddyletswydd i lunio strategaeth tlodi plant a fydd yn cynnwys ei gynigion ar sut y caiff y targedau eu cyflawni a hefyd y camau y cynigir eu cymryd i leihau effeithiau tlodi ymhlith plant.

10. Darperir ar gyfer sefydlu Comisiwn Tlodi Plant a’i brif swyddogaethau fydd cynghori’r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y strategaeth tlodi plant ar gyfer y DU a bod yn rhan o’r broses lle bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer ei bŵer i ddiwygio’r targedau.

11. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Mater 15.2 yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddeddfu mewn perthynas â “lleihau anghydraddoldebau o ran llesiant rhwng plant neu bobl ifanc”. Mae’r cymhwysedd hwn yn berthnasol i swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus y mae eu prif swyddogaethau yn ymwneud ag un neu ragor o’r meysydd yn Atodlen 5. Mae’r diffiniad o “llesiant” yn y cyswllt hwn yn cynnwys “llesiant cymdeithasol ac economaidd” a “diogelu plant rhag niwed ac esgeulustod”. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol hefyd gymhwysedd o dan Fater 15.6 mewn perthynas â “chydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc” ymhlith cyrff cyhoeddus perthnasol.

12. Barn Llywodraeth y Cynulliad yw bod darparu ar gyfer y materion hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Mater 15.2 ac felly mae angen cael cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol o dan Reol Sefydlog 26 mewn perthynas â’r canlynol –

(i) creu strategaeth tlodi plant ar gyfer y DU sy’n ymwneud â materion sy’n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad a threfniadau i Weinidogion Cymru gyfrannu at yr adroddiadau cynnydd;

(ii) gwneud trefniadau i sefydlu Comisiwn Tlodi Plant y DU i roi cyngor ar y strategaeth;

(iii) gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru benodi aelod ar y cyfryw gomisiwn ac i ymgynghori â’r aelod hwnnw wrth i aelodau eraill gael eu penodi.

Mae Rheol Sefydlog 26 yn rhagnodi bod angen i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno ac i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, yn y drefn honno, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Mesur Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

## Manteision defnyddio'r Mesur Seneddol hwn

13. Mae'r darpariaethau yn y Mesur sy'n ymwneud â'r strategaeth tlodi plant yn ymdrin â'r meysydd a geir yn y Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) i'r graddau eu bod yn faterion sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â Mater 15.2. Fodd bynnag, bydd rhai elfennau o strategaeth y DU y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Mesur y DU yn cynnwys darpariaeth i'r strategaeth gyfeirio at gynigion Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei hystyried yn briodol na ddylai darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer Strategaeth Tlodi Plant y DU eithrio materion y gallai Strategaeth Tlodi Plant Gweinidogion Cymru ymdrin â hwy o dan y Mesur. Polisi Llywodraeth y Cynulliad yw y dylai Strategaeth Tlodi Plant Gweinidogion Cymru gael ei halinio â Strategaeth Tlodi Plant y DU felly mae'n briodol i Fesur y DU gynnwys darpariaeth i strategaeth y DU ymdrin â materion sydd wedi'u datganoli yng Nghymru drwy gyfeirio at gynigion Gweinidogion Cymru neu drwy gyfeirio at Strategaeth Tlodi Plant Gweinidogion Cymru.

14. Yn yr un modd, gallai darpariaeth ddeddfwriaethol mewn perthynas â'r rhan i'w chwarae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn corff cynghori mewn perthynas â thlodi plant gael ei gwneud gan Lywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â Mater 15.2. Cred Llywodraeth y Cynulliad ei bod yn briodol ymdrin â'r ddarpariaeth ar gyfer hyn ochr yn ochr â'r ddarpariaeth arall ynghylch y Comisiwn yn y Mesur ar gyfer y DU.

15. Gan hynny, felly, gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn a chyflwynwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried.

## Goblygiadau Ariannol

16. Ni ragwelir y bydd goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn deillio o weithredu darpariaethau perthnasol Mesur Tlodi Plant y DU na ellir eu hymgorffori'n rhan o'r rhwymedigaethau presennol na rhwymedigaethau a fydd yn codi o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), boed hynny mewn perthynas ag ymateb i'r ymgynghoriad gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar Strategaeth Tlodi Plant y DU neu mewn perthynas â'r rhan i'w chwarae gan gynrychiolydd a benodir gan Weinidogion Cymru ar y Comisiwn Tlodi Plant.

**Dr Brian Gibbons AC**
**Gweinidog Cymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**
**Mehefin 2009**